

Mudiadau annibyniaeth yn Ewrop: Pa alwadau maent yn eu gwneud a sut maent yn eu cyfiawnhau?

CYD-DESTUN

Mae mudiadau o blaid annibyniaeth wedi dod yn llawer mwy amlwg ledled Ewrop yn ystod y degawd diwethaf. Mae'r mudiadau hyn yn herio undod tiriogaethol a chyfansoddiadol gwladwriaethau presennol gyda'r bwriad o sefydlu gwladwriaethau annibynnol newydd eu hunain.

Er gwaethaf amlygrwydd cynyddol mudiadau o blaid annibyniaeth, hyd yma mae'r rhan fwyaf o'r ymchwil academiaidd sy'n trafod y mudiadau hyn, ynghyd â dadansoddiad y cyfryngau, wedi tueddu i ganolbwyntio ar ychydig o achosion proffil uchel, fel Catalwnia a'r Alban.


Ychydig o sylw a roddwyd i nodau cyfansoddiadol penodol mudiadau o blaid annibyniaeth, yn ogystal â'r math o ddadleuon maent yn eu defnyddio i gyfiawnhau eu galwadau.

Felly, er bod mudiadau o blaid annibyniaeth yn mynd ati'n gynyddol i geisio siapio'r ddadl wleidyddol mewn sawl democratiaeth Ewropeaidd sefydledig, yn gyffredinol nid oes dealltwriaeth dda o'u hamcanion a'u strategaethau gwleidyddol.

Mae hyn yn cyfyngu ar allu gwahanol actorion gwleidyddol i ymgysylltu'n adeiladol â mudiadau o blaid annibyniaeth, p'un a ydynt yn weddol gefnogol eu hunain neu'n wrthwynebus i'w hagenda gyfansoddiadol.

Edrychodd yr ymchwil ar ddisgyrsiau gwleidyddol y mudiadau annibyniaeth hyn dros gyfnod o dri degawd, rhwng 1990 a 2021, gan ofyn:

- Pa fath o newidiadau cyfansoddiadol y mae mudiadau annibyniaeth eisiau eu gweld?
- Pa fath o ddadleuon a ddefnyddir i gyfiawnhau annibyniaeth?



LLENWI'R BWLCH


Cynhaliodd prosiect IMAJINE astudiaeth fanwl oedd yn cymharu mudiadau annibyniaeth mewn naw achos Ewropeaidd – yr Alban, Bafaria, Catalwnia, Corsica, Cymru, Galicia, Lombardia, Sardinia, Veneto. Ym mhob un o'r lleoliadau hyn, roedd y mudiadau a astudiwyd yn cynnwys cymysgedd o fudiadau cymdeithas sifil a phleidiau gwleidyddol o blaid annibyniaeth.



Bu'r ymchwil yn dadansoddi 520 o ddogfennau



Mae galwadau am annibyniaeth wedi dod yn fwyfwy amlwg



Yn yr achosion a ddadansoddwyd gennym, bu cynnydd amlwg yn y galwadau am annibyniaeth dros y degawd diwethaf. Maent wedi dod yn fwy amlwg na galwadau am hunan-lywodraeth a galwadau am ymyrraeth polisi gan lefelau uwch o lywodraeth, a oedd fwyaf blaenllaw yn y 2000au.


Dim ond 20% o'r galwadau cyfansoddiadol a nodwyd yn y dogfennau a astudiwyd yn ystod y cyfnod 1990-99 oedd yn galw am annibyniaeth, a gostyngodd hynny ymhellach i ddim ond 16% yn ystod y cyfnod 2000-09.

Fodd bynnag, gwelwyd cynnydd sylweddol yn ystod y cyfnod 2010-21 wrth i alwadau am annibyniaeth dyfu i bwynt lle roeddent yn 33% o'r galwadau cyfansoddiadol a gyflwynwyd gan y mudiadau a astudiwyd (gweler Ffigur 1).

Mae hyn yn awgrymu tuedd gan fudiadau o blaid annibyniaeth yn Ewrop o symud oddi wrth ddilyn strategaethau gwleidyddol 'cymedrol' yn ystod y 1990au a'r 2000au, i strategaethau mwy 'radical' lle mae eu galwadau am annibyniaeth yn nodwedd llawer mwy amlwg.

Ym Mafaria neu'r Alban, gwelir galwadau am annibyniaeth yn ystod y tri degawd a astudiwyd. Fodd bynnag, yng Nghymru, Catalwnia, Galicia, Sardinia, mae galwadau am annibyniaeth yn llai amlwg yn ystod y 1990au a dechrau'r 2000au, ond yn dod yn amlycach o tua 2010 ymlaen.

Ffigur 1: Galwadau am annibyniaeth (1990-2021)



Nid sicrhau annibyniaeth yw unig amcan mudiadau o blaid annibyniaeth

Dangosodd ein dadansoddiad nad galwadau am annibyniaeth yw'r unig fath o alwad gyfansoddiadol sy'n cael ei gwneud gan fudiadau o blaid annibyniaeth.


Annibyniaeth oedd yr unig alwad gyfansoddiadol mewn 23% o'r dogfennau a ddadansoddwyd. Yn y mwyafrif o ddogfennau, gwnaed galwadau am annibyniaeth ochr yn ochr â galwadau cyfansoddiadol eraill, mwy cyfyngedig (Ffigur 2). Roedd y rhain yn cynnwys:

- diwygiadau cyfansoddiadol fel:
 - newidiadau sylfaenol i natur y wladwriaeth (e.e., bod y wladwriaeth yn mabwysiadu strwythur ffurfiol mwy ffederal)
 - newidiadau mwy cymedrol (e.e., bod grymoedd mewn meysydd polisi penodol yn cael eu trosglwyddo o'r wladwriaeth ganolog i lawr i'r diriogaeth).

- rhagor o ymyrraeth polisi yn y diriogaeth gan lefelau uwch o lywodraeth (e.e., bod llywodraeth y wladwriaeth yn dyrannu rhagor o adnoddau ariannol i gefnogi datblygiad y diriogaeth).

Mae hyn yn dangos bod mudiadau o blaid annibyniaeth yn dilyn strategaeth wleidyddol bragmatig sy'n cyfuno nod hirdymor annibyniaeth gydag amcanion tymor byr, mwy cymedrol sydd â'r nod o rymuso eu tiriogaethau yn y cyfamser. Yn gryno, efallai mai annibyniaeth yw eu nod yn y pen draw ond maent hefyd yn galw am enillion cyfansoddiadol sydd heb fynd mor bell ag annibyniaeth.

Ffigur 2: Y gwahanol ofynion cyfansoddiadol a wnaed gan fudiadau o blaid annibyniaeth (1990-2021)



Mae'r galwadau am annibyniaeth yn seiliedig yn bennaf ar ddadleuon gwleidyddol ac economaidd-gymdeithasol

Mae ein tystiolaeth yn herio'r rhagdybiaeth boblogaidd mai materion diwylliannol a hunaniaeth yw prif ddiddordeb mudiadau o blaid annibyniaeth.

Datgelodd y dadansoddiad mai dim ond rôl ymylol mae dadleuon sy'n pwysleisio ffactorau diwylliannol neu hunaniaeth – er enghraifft, bodolaeth hunaniaeth diriogaethol benodol neu'r angen i amddiffyn iaith neu ddiwylliant penodol – yn ei chwarae yn y ffordd y mae'r mudiadau hyn yn cyfiawnhau eu galwadau am annibyniaeth. Mae dadleuon diwylliannol a hunaniaeth hefyd wedi dod yn fwyfwy ymylol dros amser.

Yn hytrach, mae mudiadau o blaid annibyniaeth yn fwy tebygol o gyfiawnhau eu galwadau drwy ddefnyddio dadleuon sy'n pwysleisio ffactorau gwleidyddol. Mae'r dadleuon hyn yn cyfiawnhau annibyniaeth ar sail ystyriaethau gwleidyddol, megis:

- mynd i'r afael â methiannau yn y system lywodraethol bresennol;

- arwain at lywodraeth sy'n fwy effeithlon, cynrychioliadol neu ddemocrataidd.


Gwelwyd gostyngiad yn y defnydd o ddadleuon o'r fath yn ystod y tri degawd a astudiwyd, ac eto dyma'r dadleuon sy'n dal i gael eu defnyddio fwyaf ar draws pob cyfnod (gweler Ffigur 3).

Mae mudiadau o blaid annibyniaeth hefyd yn gwneud defnydd sylweddol a chynyddol o ddadleuon sy'n pwysleisio ffactorau economaidd-gymdeithasol wrth gyfiawnhau eu galwadau. Mae'r dadleuon hyn yn cyfiawnhau annibyniaeth ar sail ystyriaethau economaidd-gymdeithasol, megis:

- arwain at wella ffyniant economaidd y diriogaeth
- helpu i fynd i'r afael ag anghyfiawnderau cymdeithasol penodol a chaniatáu ar gyfer datblygu cymdeithas decach a mwy cyfiawn.

Mae'r defnydd o ddadleuon economaidd-gymdeithasol wedi tyfu'n gyson yn ystod y tri degawd a astudiwyd (gweler Ffigur 3).

Ffigur 3: Dadleuon i gyfiawnhau annibyniaeth (1990-2021)



Yn aml, cyflwynir annibyniaeth fel cyfrwng ar gyfer dyfodol gwell

Datgelodd ein dadansoddiad fod mudiadau o blaid annibyniaeth yn gwneud defnydd cynyddol o ddadleuon mwy cadarnhaol i gyfiawnhau eu gofynion cyfansoddiadol, megis cyflwyno annibyniaeth fel llwybr at ddyfodol gwell, mwy llewyrchus neu fwy democrataidd.


Mae hwn yn ganfyddiad trawiadol, oherwydd mae tybiaeth gyffredinol taw prif gymhellant mudiadau o blaid annibyniaeth yw ymdeimlad o anfonlonrwydd â'r wladwriaeth neu o gael cam gan y wladwriaeth. Gall aros yn rhan o'r system wleidyddol hon felly fod yn fygythiad i iaith, diwylliant a hunaniaeth draddodiadol eu tiriogaeth, neu fe allai danseilio ffyniant economaidd eu tiriogaeth neu hawliau gwleidyddol a chynrychiolaeth y diriogaeth mewn rhyw ffordd.

Er bod ein dadansoddiad wedi datgelu achosion niferus o ddadleuon oedd yn seiliedig ar ymdeimlad o gael cam yn cael eu defnyddio gan fudiadau o blaid annibyniaeth, datgelodd hefyd fod y defnydd o ddadleuon o'r fath wedi gostwng dros amser.

Yng Nghatalwnia, er enghraifft, pan fyddai'r achos dros annibyniaeth yn cael ei gyfiawnhau ar sail dadleuon gwleidyddol, roedd ychydig dros 50% o'r enghreifftiau yn fframio annibyniaeth yn gadarnhaol fel ffordd tuag at ddyfodol gwell (gweler Ffigur 4).

Pan fyddai'r achos dros annibyniaeth yn cael ei gyfiawnhau drwy bwysleisio ystyriaethau economaidd-gymdeithasol, roedd y defnydd o ddadleuon cadarnhaol hyd yn oed yn fwy amlwg: yn 65% o'r enghreifftiau, roedd annibyniaeth wedi'i fframio'n gadarnhaol, gyda'r nod o Gatalwnia annibynnol yn cael ei gyflwyno fel ffordd o greu cymdeithas fwy llewyrchus a chyfiawn (gweler Ffigur 4).

Ffigur 4: Cyfiawnhad pleidiau o blaid annibyniaeth dros annibyniaeth Catalwnia (2008-2018)




Mae'r canfyddiadau hyn yn herio'r rhagdybiaeth gyffredinol bod galwadau am annibyniaeth yn seiliedig yn bennaf ar ymdeimlad o gael cam gan y wladwriaeth a'r drefn gyfansoddiadol bresennol.

Mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod mudiadau o blaid annibyniaeth yn Ewrop yn ymwybodol o'r ffaith bod eu llwyddiant yn dibynnu ar eu gallu i ysgogi cefnogaeth boblogaidd eang, a bod dadleuon cadarnhaol sy'n edrych tua'r dyfodol yn fwy tebygol o lwyddo.

Casgliadau allweddol

- 1.** Mae galwadau am annibyniaeth wedi dod yn fwy amlwg ledled Ewrop, yn enwedig ers 2010.
- 2.** Nid sicrhau annibyniaeth i'w tiriogaethau yw unig ddi-ddordeb mudiadau o blaid annibyniaeth – maent hefyd eisiau enillion cyfansoddiadol sydd heb fynd mor bell ag annibyniaeth.
- 3.** Yn wahanol i ragdybiaethau traddodiadol, dim ond rhan ymylol y mae dadleuon sy'n pwysleisio materion diwylliannol a hunaniaeth yn ei chwarae yn y ffordd mae'r mudiadau hyn yn cyfiawnhau eu galwadau am annibyniaeth.
- 4.** Mae mudiadau o blaid annibyniaeth yn llunio dadleuon sy'n pwysleisio ystyriaethau gwleidyddol ac economaidd-gymdeithasol, ac yn cyfiawnhau annibyniaeth mewn termau cadarnhaol fel ffordd o sicrhau dyfodol gwell.

Cysylltwch â ni os hoffech gael gwybod rhagor am yr ymchwil hon a'i chanfyddiadau allweddol, neu i drafod sut gall ein gwaith fod o fudd i'ch sefydliad.

Mae'r crynodeb gweledol hwn yn seiliedig ar ymchwil o dan arweiniad Prifysgol Aberystwyth, mewn partneriaeth â Phrifysgol Basel, Prifysgol Siena, Prifysgol Dechnegol Dresden, Prifysgol Groningen a Sefydliad Daeryddiaeth a Threfniadaeth Ofodol Academi Gwyddorau Gwlad Pwyl. I gael rhagor o wybodaeth am yr ymchwil, cysylltwch â Dr Anwen Elias drwy awe@aber.ac.uk 

cwps.aber.ac.uk/annibyniaeth

Cafodd yr ymchwil hon ei ariannu gan raglen ymchwil ac arloesi Horizon 2020 yr Undeb Ewropeaidd o dan gytundeb grant Rhif 726950. Adlewyrchu barn yr awduron yn unig y mae'r adroddiad hwn, ac nid yw'r Comisiwn yn gyfrifol am unrhyw ddefnydd y gellir ei wneud o'r wybodaeth sydd ynddo.

